# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 11eg 2025 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards, a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw a Rhys Jones.

Croesawyd Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i roi cyflwyniad ynglŷn â'i gwaith yn yr ardal ac am yr apel recriwtio wardeniaid gwirfoddol. Diolchwyd iddynt a chytunwyd i ddosbarthu'r wybodaeth gyda'n cysylltiadau lleol.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant gyda'r cais cynllunio perthnasol isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfarfod Diweddaru Cynllun Ardal Ni – cafwyd adroddiad gan Arwel Davies o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.
ii) Arolwg Gwynedd 2025.
iii) Ymghynhoriad cyhoeddus – rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau

b) Heddlu Gogledd Cymru.
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala - cytunodd Rhys Richards i fynychu ar ran y Cyngor.
ii) Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

c)Amrywiol.
i) Mabon ap Gwynfor AS – diogelwch yr A494 – diweddariad.
ii) Siân Gwenllian AS (Arfon.) - sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor. Cytunwyd yn unfrydol i yrru gair o gefnogaeth.
iii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - arolwg o etholaethau'r Senedd.
iv) Cais am fin halen ym Mharc– yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd yn bosib symud un o'r biniau halen presennol i'r lleoliad newydd.
v) Uchelgais Gogledd Cymru – Ymgynghoriad trafnidiaeth.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
i) NP5/72/62B – Estyniad i'r cefn ynghyd a man newidiadau. Canolfan Cymuned, Parc.
ii) NP5/72/241B - Estyniad a newidiadau i'r tŷ ac ymestyn y cwrtil preswyl.1 Maes Gwyn, Rhyduchaf. (Arwel Davies yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau uchod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

c) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y gydnabyddiaeth ddewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y gydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ch) Taliadau.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)
2) CTHEM (TWE)
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth)
4) Neuadd y Parc (llogi)
5) Neuadd y Maesywaen (llogi)
6) Cwmni Pum Plwy Penllyn (llwybrau)

d) Ceisiadau ariannol.

Cytunwyd i gyfrannau i:-

| | |
|---|---|
| 1) Neuadd Y Parc | £150 |
| 2) Neuadd Maesywaen | £150 |
| 3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn | £150 |
| 4) Ysgol Bro Tryweryn | £150 |
| 5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn | £75 |
| 6) Sioe Ardal Maesywaen | £50 |
| 7) CFFI Meirionnydd | £125 |
| 8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd | £25 |
| 9) Cantref | £25 |
| 10) Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| 11) Tŷ'r Eos | £50 |
| 12) Tŷ Gobaith | £25 |
| 13) Macmillan | £25 |
| 14) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod | £50 |
| 15) Llen y Llannau | £25 |
| 16) Theatr Derek Williams | £50 |
| 17) Marie Curie | £25 |

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Cytunwyd i anfon y cwynion isod i'r adrannau perthnasol.

i) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Adran Briffyrdd ynglŷn â'r ffôs ger mynedfa Pant Neuadd, Parc gan nad oeddynt wedi gwneud unrhyw waith ar y safle.
ii) Ffosydd angen eu clirio ar yr A4212, rhwng Rhydyfen, Arenig a groesffodd Bala/Blaenau.
iii) Cais i gael y sweeper i hel yr holl ddail sydd wedi disgyn ar ochr ffyrdd yr ardal ac yn stopio'r dŵr fynd lawr i'r draeniau.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 13eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….